# Sianel newydd BBC Three: Ymgynghoriad Prawf Lles y Cyhoedd

Dogfen Ymgynghori'r BBC

Dyddiad cyhoeddi: 5 Mawrth 2021

Dyddiad cau: 16 Ebrill 2021

# Cynnwys

Cynnwys ..... 1
1. Crynodeb Gweithredol ..... 2
1.1 Cyd-destun y farchnad ..... 2
1.2 Sianel arfaethedig BBC Scotland ..... 3
1.3 Newidiadau ehangach i bortffolio sianeli'r BBC ..... 4
1.4 Gwerth cyhoeddus y newidiadau hyn ..... 4
1.5 Proses gymeradwyo reoleiddiol ..... 4
2. Cyd-destun ein cynigion ..... 6
2.1 Hanes BBC Three ..... 6
2.2 Her y farchnad ..... 7
2.3 Her y gynulleidfa ..... 7
2.4 Yr her ariannol ..... 8
2.5 Ymateb y BBC i'r heriau hyn ..... 9
3. Cynigion y BBC ..... 11
3.1 Sianel deledu newydd BBC Three ..... 11
3.2 Newidiadau i CBBC ..... 17
4. Darparu gwerth cyhoeddus ..... 19
4.1 Cyflawni yn erbyn Cenhadaeth y BBC ..... 19
4.2 Ail Ddiben Cyhoeddus y BBC – Dysgu ar gyfer pobl o bob oed ..... 19
4.3 Trydydd Diben Cyhoeddus y BBC – creadigol, unigryw ac o ansawdd uchel 19
4.4 Pedwerydd Diben Cyhoeddus y BBC – Cymunedau amrywiol ac economi creadigol y DU i gyd. ..... 20
5. Manylion pellach am yr ymgynghoriad ..... 22
5.1 Proses Prawf Lles y Cyhoedd ..... 22
5.2 Cwestiynau ymgynghoriad y BBC ..... 24
5.3 Sut mae ymateb ..... 25

# 1. Crynodeb Gweithredol

Mae'r ddogfen hon yn nodi cynigion y BBC i ail-lansio BBC Three fel sianel deledu, gyda'r bwriad o'i lansio ym mis Ionawr 2022. Bydd BBC Three yn sianel aml-genre ar gyfer pobl ifanc rhwng 16 a 34 oed. Bydd yn adrodd amrywiaeth o straeon unigryw, ifanc a Phrydeinig o bob cwr o'r DU. Bydd y sianel unigryw hon yn cyflawni gwasanaeth cyhoeddus pwysig nad oes yr un sianel arall ar y farchnad yn ei ddarparu ar hyn o bryd.

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i ni wasanaethu'r holl gynulleidfaoedd drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd a neilltuol o ansawdd da sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu.[1] Fel y nododd Ofcom yn ei drydydd adroddiad blynyddol ar y BBC: "Mae cyrraedd pobl iau yn rhan bwysig o her y BBC i wasanaethu pob cynulleidfa ar draws y DU."[2] Roedd hefyd yn nodi: "Mae angen i'r BBC ehangu ei gyrhaeddiad ac apelio at amrywiaeth ehangach o bobl, yn arbennig cynulleidfaoedd o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a'r rheini mewn grŵp economaidd-gymdeithasol is."[3] Bydd sianel deledu BBC Three yn helpu i gyflawni'r amcanion hyn.

Yn y ddogfen hon, rydym wedi nodi cyd-destun y farchnad, pa mor bwysig yw sicrhau bod y BBC yn cyflawni gwerth cyhoeddus a manylion am ein cynigion. Rydym yn ymgynghori'n gyhoeddus ar y cynigion hyn er mwyn rhoi'r cyfle i randdeiliaid roi sylwadau, gan fod y BBC yn lansio Prawf Budd y Cyhoedd a fydd yn asesu a yw gwerth cyhoeddus ein cynigion yn fwy na'r effaith ar y farchnad. Rydym yn gwahodd ymatebion gan yr holl randdeiliaid sydd â diddordeb, yn arbennig ymatebion ynghylch gwerth cyhoeddus ac effaith y cynigion ar y farchnad.

## 1.1 Cyd-destun y farchnad

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld cystadleuaeth newydd am amser cynulleidfaoedd, nid yn unig gan wasanaethau ffrydio fel Netflix, Amazon a Disney+, ond hefyd gan y cynnydd cyflym mewn cyfryngau cymdeithasol a gemau. Mae'r datblygiadau hyn wedi arwain at newidiadau sylweddol yn y ffordd mae gwylwyr yn treulio eu hamser ar wahanol gyfryngau. Mae nifer y bobl, yn arbennig pobl ifanc, sy'n gwylio darllediadau teledu yn parhau i ostwng.

Fodd bynnag, mae'r BBC yn gwneud yn dda ymysg rhannau mawr o'r gynulleidfa iau. Ar gyfartaledd, mae 80% (12.5 miliwn) o bobl ifanc rhwng 16 a 34 oed yn defnyddio'r BBC bob wythnos ac mae 93% (14.6 miliwn) yn ei ddefnyddio bob mis – mwy nag unrhyw frand arall ar gyfer y cyfryngau.[4] Ond mae angen i ni wneud mwy ar gyfer cynulleidfaoedd iau ac ar gyfer cynulleidfaoedd ledled y DU, yn arbennig

---

[1] Siarter Frenhinol y BBC, Erthygl 5
[2] Trydydd adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC, Tachwedd 2020, t.20
[3] Trydydd adroddiad blynyddol Ofcom ar y BBC, Tachwedd 2020, t.3
[4] Compass gan Ipsos MORI, 16-34, 2020.

yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Gogledd a Chanolbarth Lloegr. Mae'r un peth yn wir am gynulleidfaoedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol is.

Yn benodol, mae grŵp sylweddol a gweddol sefydlog o wylwyr iau (yn aml C2DE yng Ngogledd Lloegr sydd â llai o fynediad at wasanaethau digidol ar-alw), sydd ag arferion da o ran gwylio darllediadau teledu, ond ar hyn o bryd, nid ydynt yn cael digon o werth gan deledu'r BBC. Wrth newid BBC Three yn sianel ar-lein yn unig yn 2016, roedd hyn yn lleihau gallu'r BBC i wasanaethu'r demograffig hwn.

Mae'n hanfodol bod y BBC yn gallu cyrraedd a chynnig gwerth i bob person ifanc. Mae'r newidiadau cyflym mewn tueddiadau gwylio ynghyd â chynnydd yng nghyllidebau cynnwys cystadleuwyr yn golygu bod rhaid i ni ddod o hyd i ffordd o wella'r hyn rydym yn ei gynnig i gynulleidfaoedd iau ar y teledu ac ar iPlayer yn gyflym, yn erbyn heriau ariannol a gweithredol sylweddol.

## 1.2 Sianel arfaethedig BBC Scotland

Mae BBC Three yn ddilys ac yn unigryw ar gyfer pob person ifanc ledled y DU. Fel brand, mae'n dangos amrywiaeth o straeon ifanc, amrywiol a Phrydeinig eu hanfod sy'n siapio hunaniaeth – gan siarad â chenhedlaeth ifanc sy'n ceisio dod o hyd i lwybr mewn bywyd.

Bydd sianel deledu BBC Three yn galluogi amrywiaeth ehangach o bobl ifanc i gael gafael ar gynnwys perthnasol sy'n gallu eu helpu i ddathlu a chanfod pwy ydyn nhw. Bydd hefyd yn creu llwyfan mwy er mwyn lansio a dathlu talent ifanc fyd-eang a thalent Brydeinig a all ddylanwadu ar gynulleidfaoedd ifanc y DU mewn ffordd ystyrlon.

Bydd sianel BBC Three yn adeiladu ar gryfderau perfformiad ar-lein BBC Three, gan ganolbwyntio ar dalent newydd a dramâu trawiadol (*Normal People, Clique, Thirteen, Killed by my Debt*), materion cyfoes a ffeithiol *(Is This Coercive Control?, Hometown: A Killing, Jesy Nelson: 'Odd One Out'*), adloniant (*RuPaul's Drag Race UK*, *Glow Up*) a chomedi (*This Country*, *Fleabag*, *Famalam*). Bob blwyddyn, bydd y sianel newydd yn darlledu dros 300 awr o raglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, ar draws amrywiaeth ehangach o genres nag unrhyw sianel debyg.

Mae portreadu grwpiau amrywiol sy'n cael eu tangynrychioli ledled y DU wrth wraidd arlwy gwreiddiol BBC Three, a bydd yn parhau i fod yn y dyfodol. Bydd y cynnwys yn ymdrin ag amrywiaeth o sefyllfaoedd rhanbarthol, gan weithio mewn partneriaeth â chwmnïau annibynnol a thimau comisiynu Gwledydd a Rhanbarthau'r BBC i ddarganfod talent a syniadau newydd.

Rydym yn bwriadu lansio BBC Three fel sianel deledu o fis Ionawr 2022 ymlaen. Bydd y sianel newydd yn darlledu rhwng 7pm a 4am bob dydd. Fel sianel gwasanaeth cyhoeddus newydd, rydym yn credu y dylai'r sianel gael ei chynnwys yn y 24 slot uchaf mewn cyfeiryddion rhaglenni electronig.

## 1.3 Newidiadau ehangach i bortffolio sianeli'r BBC

Mae sianel deledu arfaethedig BBC Three yn rhan o'r dull gweithredu ar gyfer ein portffolio o sianeli sydd wedi'i nodi yng Nghynllun Blynyddol y BBC ar gyfer 2020/21.

BBC One fydd canolbwynt ein harlwy darlledu byw o hyd – sianel brif ffrwd dda sy'n parhau i gymryd risgiau creadigol. BBC Two fydd cartref rhaglenni arbenigol y BBC. Bydd yn canolbwyntio ar raglenni premiwm a rhaglenni ffeithiol unigryw sy'n gallu cael mwy o effaith ar gynulleidfaoedd, diolch i deitlau sy'n cael eu hariannu'n well a fydd ar gael am hir ar BBC iPlayer. Bydd hefyd yn cynnwys teitlau o BBC Four, a fydd yn ffocysu ar gasgliadau o'r cynnwys mwyaf unigryw o archif gyfoethog y BBC, yn enwedig y celfyddydau a cherddoriaeth.

Er mwyn lansio sianel ddarlledu BBC Three, bydd angen i ni ailddyrannu capasiti dosbarthu o wasanaethau presennol. O ganlyniad, bydd oriau darlledu CBBC yn gorffen am 7pm, fel ag yr oedd cyn 2016.

## 1.4 Gwerth cyhoeddus y newidiadau hyn

Bydd y newidiadau hyn yn creu gwerth cyhoeddus mewn amrywiaeth eang o ffyrdd. Bydd sianel BBC Three yn dangos cynnwys unigryw a chreadigol o safon uchel a bydd yn gwasanaethu cynulleidfa iau C2DE nad yw'n cael ei gwasanaethu'n ddigonol gan deledu'r BBC ar hyn o bryd. Fel rhan o gylch gwaith aml-genre eang y BBC, ac ochr yn ochr â rhaglenni drama, comedi ac adloniant gwych, bydd yn darparu rhaglenni ffeithiol wedi'u targedu yn ystod oriau brig a fydd yn helpu'r gynulleidfa i ddeall ac ymgysylltu â'r byd o'u cwmpas a dysgu am wahanol bynciau mewn ffordd hygyrch ac apelgar.

Bydd sianel BBC Three yn cynrychioli ac yn portreadu lleisiau a phrofiadau go iawn ledled y DU. Bydd o leiaf ddwy ran o dair o wariant estynedig rhaglenni BBC Three yn cael ei wario y tu allan i Lundain a bydd BBC Three yn adeiladu ar ei bartneriaeth parhaus gyda Chymru Greadigol, Northern Ireland Screen a Screen Scotland.

## 1.5 Proses gymeradwyo reoleiddiol

Mae lansio BBC Three fel sianel deledu at y dibenion hyn yn golygu ei bod yn Wasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU ac felly, mae angen cynnal Prawf Budd y Cyhoedd yn awtomatig.

Fel rhan o'r broses o gynnal Prawf Budd y Cyhoedd, rydym yn ymgynghori'n gyhoeddus ar y cynigion hyn er mwyn rhoi'r cyfle i randdeiliaid gyflwyno sylwadau. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhedeg am chwe wythnos o 5 Mawrth 2021 i 16 Ebrill 2021. Byddwn hefyd yn cynnal ymchwil marchnad a dadansoddiad economaidd er mwyn asesu'r gwerth cyhoeddus ac effaith y cynigion hyn ar y farchnad.

Ar sail yr ymchwil, y dadansoddiad ac adborth rhanddeiliaid, byddwn yn penderfynu ar ein cynigion terfynol. Os bydd Bwrdd y BBC yn penderfynu bod y cynigion hyn yn bodloni'r Prawf Budd y Cyhoedd, yna byddwn yn anfon

argymhelliad y Prawf Budd y Cyhoedd a’r dystiolaeth ategol at Ofcom. Yna, byddwn yn cyhoeddi'r argymhelliad, yr ymchwil a’r dadansoddiad ar gyfer y Prawf Budd y Cyhoedd. Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn digwydd yn yr haf.

## 2. Cyd-destun ein cynigion

Yn yr adran hon, rydym yn nodi'r cyd-destun allweddol sy'n sail i'n cynigion, gan gynnwys datblygiadau technolegol a datblygiadau yn y farchnad, newidiadau yn ymddygiad cynulleidfaoedd, cyd-destun ariannol y BBC a chyfeiriad strategol y BBC.

### 2.1 Hanes BBC Three

Lansiwyd BBC Three fel sianel deledu ddigidol ym mis Chwefror 2003 gyda chyllideb o £75m (tua £120m mewn arian heddiw), a sefydlodd enw da am raglenni comedi, materion cyfoes a rhaglenni dogfen newydd o'r DU ar gyfer pobl ifanc. BBC Three oedd y sianel deledu orau ar gyfer pobl rhwng 16 a 34 oed yn ystod 4 o'i 5 mlynedd diwethaf o ddarlledu (rhwng 2011 a 2014).

Roedd yn llwyddiannus ar draws pob genre – comedïau Prydeinig gwreiddiol fel *Gavin and Stacey, Bad Education* a *Cuckoo*; cyfresi dogfen sydd wedi ennill gwobrau fel *Life and Death Row*; rhaglenni adloniant poblogaidd fel *The Call Centre* a *Don't Tell The Bride*; a dramâu hynod lwyddiannus fel *Murdered by My Boyfriend*. Roedd BBC Three yn hybu doniau newydd yn y DU, gan helpu i gyflwyno pobl fel Stacey Dooley a Reggie Yates i'r sgrin. Roedd gan y sianel hanes cryf o gyflwyno straeon amrywiol o'r DU ar y teledu gyda rhaglenni dogfen fel *Disabled in an Instant, Epilepsy and Me* ac *Excluded*: *Kicked Out of School.*

Yn 2015, roedd y BBC yn bwriadu cau BBC Three fel sianel ddarlledu a'i hail-greu ar-lein, gan leihau'r gyllideb o £81m (2013/14) i £30m (2017/18). Cafodd y cynnig ei gymeradwyo gan Ymddiriedolaeth y BBC mewn Prawf Gwerth Cyhoeddus a ddaeth i'r casgliad bod y newid:

> "wedi'i ysgogi gan bwysau ariannol a newid strwythurol yn y ffordd roedd pobl ifanc yn defnyddio gwasanaethau teledu. Ond mae cau gwasanaeth yn benderfyniad anodd ac roedd ein hasesiad yn ystyried llawer o bethau."[5]

Cafodd y penderfyniad i symud BBC Three ar-lein ei wneud yn gynharach na'r hyn roedd y BBC wedi'i fwriadu ac roedd y BBC yn cydnabod y byddai'r newidiadau'n effeithio ar rai cynulleidfaoedd y mae teledu'n dal yn bwysig iddynt neu bobl heb ddigon o gysylltiad band eang. Fodd bynnag, yn gyffredinol, roedd y cynnig yn debygol o sicrhau gwerth cyhoeddus cadarnhaol ac yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y farchnad.

Ym mis Chwefror 2016, BBC Three oedd y sianel deledu gyntaf yn y byd i stopio darlledu ar y teledu a chynnig ei chynnwys ar-alw dros y rhyngrwyd.

Ers symud ar-lein, mae BBC Three wedi cyflwyno amrywiaeth o raglenni arloesol a nodedig i gynulleidfaoedd. Roedd y teitlau'n cynnwys comedïau Prydeinig gwreiddiol fel *Fleabag*, *This Country*, a *The Young Offenders*; dramâu Prydeinig cyfoes fel *Normal People*, *Thirteen* and *Clique*; rhaglenni dogfen sy'n procio'r meddwl fel *Jesy Nelson: Odd One Out*; a rhaglenni adloniant poblogaidd fel *RuPaul's Drag Race UK*. Mae gwasanaeth ar-lein BBC Three wedi cael canmoliaeth fawr, gan gynnwys

---

[5] Ymddiriedolaeth y BBC, *Final decision on proposed changes to BBC television and online services*, Tachwedd 2015

Gwobr Sianel y Flwyddyn gan y Gymdeithas Deledu Frenhinol yn 2017 a Gwobr Sianel Ddigidol y Flwyddyn gan y *Broadcast Magazine* yn 2020.

## 2.2 Her y farchnad

Heddiw, mae'r BBC yn wynebu cystadleuaeth newydd am amser cynulleidfaoedd ifanc. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y bobl sy'n defnyddio band eang cyflym a nifer y dyfeisiau sydd wedi'u cysylltu â band eang wedi cynyddu'n gyflym (ee teledu clyfar, ffonau clyfar a thabledi). Mae hyn wedi galluogi cynulleidfaoedd i gael gafael ar ystod ehangach o gynnwys gan fwy o ddarparwyr. Rydym wedi gweld twf cyflym yn nifer y gwasanaethau tanysgrifio i fideo ar alw byd-eang (o'r UDA yn bennaf) sy'n ymuno â'r farchnad ac maent yn dod yn fwyfwy amlwg yn farchnad yn y DU. Ar ddiwedd 2019, roedd dros 14 miliwn o gartrefi wedi tanysgrifio i o leiaf un gwasanaeth SVOD, Netflix, Amazon Prime Video neu Now TV yn bennaf.[6]

Ar ddiwedd 2019 a 2020, roedd mwy o wasanaethau SVOD newydd yn ymuno â'r farchnad yn y DU, yn enwedig Apple TV+, BritBox, ac yn fwyaf diweddar ym mis Mawrth 2020, Disney+. Erbyn dechrau mis Gorffennaf, roedd hyd at 16% o'r holl oedolion ar-lein wedi tanysgrifio i Disney+, gan basio NOW TV (10%) i fod y gwasanaeth ffrydio tanysgrifiad mwyaf poblogaidd ar ôl Netflix (45% ac Amazon Prime Video (39%).[7] Wrth edrych i'r dyfodol, nid ydym yn disgwyl i gyflymder y newid na ffyrnigrwydd y gystadleuaeth sy'n wynebu'r BBC yn arafu.

## 2.3 Her y gynulleidfa

Er mai teledu sy'n cael ei ddarlledu'n fyw sy'n cael y nifer mwyaf o gynulleidfaoedd yn y DU, mae'r datblygiadau hyn yn y farchnad wedi arwain at newidiadau sylweddol yn y ffordd mae gwylwyr yn treulio eu hamser. Dros y 5 mlynedd diwethaf, mae nifer y bobl sy'n gwylio teledu wedi parhau i ostwng gan fod mwy o gynulleidfaoedd yn dewis gwylio rhaglenni ar-alw – sy'n cael ei waethygu gan y twf enfawr mewn cystadleuaeth gan wasanaethau SVOD byd-eang sy'n cael eu hariannu'n dda, YouTube, gemau a fideos eraill ar-lein. Mae'r pandemig byd-eang wedi gwaethygu'r frwydr dros wylwyr a'r newid i wylio rhaglenni ar-alw ar draws pob oedran, ond mae'n fwyaf amlwg ymysg gwylwyr iau.

Mae'r BBC wedi rheoli'r newid hwn mewn ffordd gymharol effeithiol. Mae wedi cyfuno ei gryfder ym maes teledu darlledu a chynyddu nifer y gwylwyr sy'n gwylio rhaglenni ar-alw ar iPlayer ac erbyn hyn y BBC yw'r ail wasanaeth teledu ar-alw mwyaf yn y DU. Heddiw, mae'r BBC yn parhau i gyrraedd cynulleidfaoedd mawr, o bob oed, gan gynnwys cynulleidfaoedd iau. Ar gyfartaledd, mae 80% o bobl ifanc rhwng 16 a 34 oed (12.5 miliwn) yn defnyddio'r BBC bob wythnos a 93% (14.6 miliwn) bob mis – mwy nag unrhyw frand arall ar gyfer y cyfryngau.[8]

Fodd bynnag, nid yw'r BBC wedi gallu gwrthsefyll y newid strwythurol hwn mewn ymddygiad cynulleidfaoedd na'r gystadleuaeth gynyddol yn y farchnad. Mae cyrhaeddiad a'r amser sy'n cael ei dreulio gyda'r BBC yn parhau i ostwng gan nad yw

---

[6] Adroddiad Gwylio 2020, BARB
[7] Cyfryngau'r Genedl 2020, Ofcom, t.5
[8] Compass gan Ipsos MORI, 16-34, 2020.

BBC iPlayer yn tyfu'n ddigon cyflym i wneud iawn am y dirywiad mewn rhaglenni teledu sy'n cael eu darlledu gan y BBC. Mae angen i ni wneud mwy ar gyfer cynulleidfaoedd iau, yn enwedig y rheini yng Ngogledd Iwerddon, yr Alban a Gogledd a Chanolbarth Lloegr Mae'r un peth yn wir am gynulleidfaoedd o grwpiau economaidd-gymdeithasol is.

Wrth i ni barhau i newid i fideo ar-alw, mae gan garfan sylweddol a gweddol sefydlog o bobl ifanc arferion da o ran gwylio teledu o hyd, ond nid ydynt yn defnyddio llawer ar deledu'r BBC. Maent yn tueddu i fod yr un cynulleidfaoedd y mae angen i ni wneud mwy ar eu cyfer – cynulleidfaoedd y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr, o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, a'r rheini sydd â llai o fynediad at wasanaethau ar-alw. Ar ôl symud BBC Three ar-lein yn 2016, collodd y BBC un o'i sianeli ar gyfer gwasanaethu'r ddemograffeg yma ac o ganlyniad i hyn, rydym wedi cael trafferth sicrhau digon o werth iddynt gyda'n sianeli teledu presennol ac iPlayer.

Fel darlledwyr eraill, mae'r BBC yn parhau i wneud y mwyaf o'i bortffolio o wasanaethau teledu, gan ddefnyddio sianeli teledu a BBC iPlayer i wasanaethu pob cynulleidfa. Mewn byd lle mae arian yn gyfyngedig a mwy o gystadleuaeth gan gwmnïau byd-eang o'r UDA, mae ein portffolio teledu yn un o'n hasedau gorau. Mae iPlayer yn un o gryfderau allweddol y BBC yn erbyn cystadleuaeth gynyddol SVOD. Mae'n rhaid i ni ei ddefnyddio mor effeithiol â phosibl er mwyn cyrraedd pob cynulleidfa.

## 2.4 Yr her ariannol

Dros y degawd diwethaf, o ganlyniad i rewi cost trwydded deledu o 2010 ymlaen, yr Adran Gwaith a Phensiynau yn stopio talu am drwyddedau pobl dros 75 oed a'r gofyn i'r BBC ariannu rhwymedigaethau newydd, mae gwasanaethau'r BBC yn y DU wedi gweld gostyngiad o tua 30% mewn incwm. Ar adeg lle mae mwy o gystadleuaeth am gynulleidfaoedd, yn ogystal â gor-chwyddiant mewn rhannau o'r farchnad cyfryngau, mae'r BBC wedi gorfod ymgymryd â mwy o rwymedigaethau gyda llai o incwm, gan ei adael â llai i'w wario ar raglenni a gwasanaethau.

Er mwyn parhau i sicrhau gwerth i bob cynulleidfa, mae'r BBC wedi gwneud arbedion sylweddol. Ers 2016/17, mae'r BBC wedi gwneud arbedion cronnus gwerth £618 miliwn ac yn 2020/21 rydym yn rhagweld y bydd cyfanswm ein harbedion yn codi dros £800 miliwn.

Mewn adroddiad yn 2021, sef *The BBC's strategic financial management*, nododd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol: "Er gwaethaf lefelau uchel o chwyddiant yn y diwydiant adloniant, mae'r BBC wedi cynnal ei wariant ar gynnwys, ond bydd hyn yn her ar gyfer y dyfodol."[9] Bydd yr arbedion angenrheidiol pellach yn cynnwys dewisiadau anodd a fydd yn effeithio ar raglenni a gwasanaethau. Bydd ein ffocws ar werth y gynulleidfa fel blaenoriaeth strategol gyffredinol y BBC yn ein helpu ni i wneud y penderfyniadau hyn.

---

[9] *The BBC's strategic financial management*, Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, t.9

## 2.5 Ymateb y BBC i'r heriau hyn

Mae Siarter y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i ni wasanaethu'r holl gynulleidfaoedd drwy ddarparu allbwn a gwasanaethau diduedd a neilltuol o ansawdd da sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu.[10] Felly, mae'n hanfodol bod y BBC yn parhau i drawsnewid er mwyn diwallu anghenion a disgwyliadau ei holl gynulleidfaoedd ledled y DU, yn enwedig cynulleidfaoedd iau.

Yn sgil y newid cyflym mewn tueddiadau gwylio a'r cynnydd yng nghyllidebau cynnwys cystadleuwyr, mae'n rhaid i ni ddod o hyd i ffordd o gynyddu'r hyn rydym yn ei gynnig i gynulleidfaoedd iau yn gyflym, yn erbyn heriau ariannol a gweithredol sylweddol.

Ein portffolio teledu yw ein hased gorau ac wrth gyfuno'r portffolio ag iPlayer, dyma yw ein cryfder unigryw allweddol yn y gystadleuaeth yn erbyn SVOD. Mae'n rhaid i ni ddefnyddio ein gallu i ddosbarthu darllediadau mor effeithiol â phosibl er mwyn cyrraedd pob cynulleidfa.

Mae maint yr her o ran denu a chadw cynulleidfaoedd iau yn gofyn am newid cynnwys, cyllidebau, y portffolio o sianeli teledu ac iPlayer. Fel y nodwyd yn ein Cynllun Blynyddol ym mis Mai 2020, mae angen i ni wneud i'n portffolio cyfan weithio'n galetach fel 'Un BBC'. Yn benodol, rydym yn bwriadu cyflymu'r broses o symud gwariant ar draws ein cynnwys fideo er mwyn sicrhau gwerth i gynulleidfaoedd iau a chefnogi twf iPlayer. I grynhoi, bydd yn hyn cynnwys adeiladu ar gryfderau'r sianeli presennol, gan egluro a phwysleisio ar eu cymeriad a'u rôl wrth wasanaethu cynulleidfaoedd.

- **BBC One** fydd canolbwynt ein harlwy darlledu byw o hyd – sianel brif ffrwd dda sy'n parhau i gymryd risgiau creadigol. Gan weithio o fewn ein cyllideb bresennol i nodi cyfleoedd i droi teitlau sy'n perfformio'n wael yn gynnwys sy'n cael cryn effaith ar y gynulleidfaoedd ac sydd hefyd yn gweithio ar iPlayer, gallwn gynyddu effeithlonrwydd ein gwariant a chynyddu'r amser sy'n cael ei dreulio gyda chynulleidfaoedd iau.
- **BBC Two** fydd cartref rhaglenni arbenigol y BBC. Bydd yn canolbwyntio ar raglenni ffeithiol nodedig a phremiwm, gan arwain at fwy o effaith ar gynulleidfaoedd, diolch i deitlau sy'n cael eu hariannu'n well ac sydd ar gael yn hirach ar iPlayer. Bydd yn parhau i fod yn sianel aml-genre (yn enwedig cadw ei rôl fel piblinell adloniant ffeithiol ar gyfer BBC One). Bydd BBC Two yn cael ei chyfoethogi drwy gymryd cynnwys gorau BBC Four, gan ddarparu'r rhaglenni hyn i gynulleidfa fwy ac ehangach. Byddwn yn cwtogi ar gomisiynu rhai genres cost uchel ar BBC Two (ee drama), lle gall yr arian hwnnw gael mwy o effaith ar BBC One neu BBC Three.
- Fel y nodwyd gennym ym mis Mai 2020, erbyn 2022/23 rydym yn cefnogi llwyddiant **BBC Three** ac yn dyblu ei chyllideb cynnwys er mwyn cynyddu ei chyrhaeddiad ar draws gwasanaeth darlledu ac ar lein, gan ehangu'r amrywiaeth o gynnwys y mae'n ei gomisiynu. Byddwn hefyd yn parhau i

[10] Siarter Frenhinol y BBC, Erthygl 5

ganolbwyntio ar dalent newydd, dramâu trawiadol, materion cyfoes a ffeithiol, adloniant a chomedi.

- Bydd **BBC Four** yn ffocysu ar gasgliadau o'r cynnwys mwyaf unigryw o archif gyfoethog y BBC, yn enwedig y celfyddydau a cherddoriaeth.

Ers cau BBC Three fel sianel deledu yn 2016, mae wedi gweithredu'n bennaf fel brand cynnwys ar-lein ar BBC iPlayer. Mae hyn wedi lleihau effaith y BBC ar gynulleidfaoedd iau – yn enwedig y rheini sy'n dal i wylio'r teledu ac sy'n defnyddio llai ar wasanaethau ar-alw. Rydym yn credu y gall adfer BBC Three fel sianel ddarlledu ein helpu ni i gyrraedd y cynulleidfaoedd hyn a sicrhau gwerth iddynt, ynghyd â chynyddu cyrhaeddiad ac effaith ein buddsoddiadau cynyddol mewn cynnwys newydd i oedolion ifanc.

## 3. Cynigion y BBC

Er mwyn ymateb i'r heriau sydd wedi'u nodi yn y bennod flaenorol ac adeiladu ar y strategaeth a nodwyd yng nghynllun blynyddol y llynedd, mae'r BBC yn bwriadu gwneud y canlynol:

- Lansio sianel deledu newydd BBC Three o fis Ionawr 2022 ymlaen;
- Newid oriau gweithredu CBBC i ddod oddi ar yr awyr yn gynharach am 7pm, gan sicrhau capasiti ar gyfer sianel newydd BBC Three.

### 3.1 Sianel deledu newydd BBC Three

Mae'n hollbwysig bod y BBC yn gallu cyrraedd a sicrhau gwerth i bobl ifanc, ni waeth pwy ydynt nac o ble maent yn dod, ym mha ffordd maent yn hoffi gwylio rhaglenni neu eu mynediad at wasanaethau digidol ar-lein. Mae'n bosibl y gallai sianel ddarlledu newydd, gan weithio ochr yn ochr â'n hallbwn ar BBC Three ar iPlayer, gynnig manteision clir:

- Bydd cynnwys y sianel yn ceisio cyrraedd cynulleidfaoedd ifanc newydd rhwng 16 a 34 oed (ac yn ymestyn i blant rhwng 13 a 15 oed cyn y trothwy), yn arbennig y rheini sydd ag arferion cryf o ran gwylio teledu ond y mae'r BBC yn ei chael yn anodd eu cyrraedd gyda'i wasanaethau presennol.
- Byddai'n llenwi bwlch yn yr hyn rydym yn ei gynnig ar y teledu ac yn cynyddu effeithiolrwydd ein portffolio teledu o ran cefnogi ecosystem y BBC, yn enwedig iPlayer.
- Yn ein Cynllun Blynyddol 20/21, gwnaethom ymrwymo i ddyblu ein buddsoddiad mewn cynnwys "i mi" sy'n cael ei dargedu at gynulleidfaoedd iau ac sy'n cael ei gomisiynu gan BBC Three.[11] Byddai sianel deledu newydd BBC Three yn manteisio i'r eithaf ar y buddsoddiad hwn ac yn ei helpu i gyrraedd mwy o bobl ifanc.
- Byddai cael cynnwys ifanc a pherthnasol gan BBC Three ar y canllaw rhaglenni'n cynnig rhywbeth gwahanol i'r gynulleidfa yn y farchnad deledu yn y DU. Byddai'r sianel yn ein galluogi ni i adrodd amrywiaeth o straeon unigryw, ifanc a Phrydeinig o bob cwr o'r DU – diben nad oes unrhyw sianel arall yn y farchnad yn ei gyflawni ar hyn o bryd.
- Byddai'n rhoi llwyfan newydd i ni arddangos rhaglenni gorau'r BBC ar draws ein holl genres ar gyfer pobl ifanc. Byddai cynulleidfaoedd yn cael mwy o gyfleoedd i ganfod a rhoi cynnig ar ein rhaglenni, gan ein helpu ni i godi ymwybyddiaeth a newid canfyddiadau o'r hyn sydd gan iPlayer (a'r BBC) i'w gynnig.

O ystyried pa mor gyflym mae'r farchnad cyfryngau yn newid, mae cyflymder gweithredu'n allweddol ac felly rydym yn bwriadu lansio sianel deledu BBC Three ym mis Ionawr 2022.

---

[11] Cynllun Blynyddol y BBC 2020/21, t.21

Isod, mae rhagor o fanylion am ein cynlluniau ar gyfer y sianel.

### 3.1.1 Cynulleidfa darged

Mae sianel deledu BBC Three yn gyfle i ni ddarparu mwy ar gyfer tua 3.5 miliwn o bobl ifanc rhwng 16 a 34 oed sy'n gwylio teledu bob wythnos ond sydd ddim yn gwylio'r BBC.

Dyma'r bobl ifanc sydd wedi cadw at arferion da o ran gwylio teledu. Maent yn fwy tebygol o ddod o grwpiau economaidd-gymdeithasol is, yn byw y tu allan i Lundain a de-ddwyrain Lloegr, ac yn debygol o fod â chysylltiad cryf â'u hardal a'u teulu.

Bydd cynnwys cyn y trothwy ar sianel deledu BBC Three yn cynnwys rhaglenni sy'n ddeniadol ac yn addas ar gyfer cynulleidfa rhwng 13 a 15 oed.

### 3.1.2 Gweledigaeth olygyddol

Mae BBC Three yn ddilys ac yn unigryw i bob person ifanc ledled y DU. Mae'r brand yn arddangos amrywiaeth o straeon ifanc, amrywiol a Phrydeinig eu hanfod sy'n siapio hunaniaeth – gan siarad â chenhedlaeth ifanc sy'n ceisio dod o hyd i lwybr mewn bywyd.

I unrhyw berson ifanc sy'n tyfu i fyny yn y DU heddiw, mae'r byd wedi mynd yn fwy ansicr wrth i bandemig byd-eang amharu ar gynlluniau, dyheadau a chyfleoedd pobl. Wrth i'r wlad symud i gyfnod o adfer, bydd yn parhau i darfu ar fywydau pobl ifanc, yn newid ac yn ail-ddiffinio eu bywydau.

Mae portreadu grwpiau amrywiol sy'n cael eu tangynrychioli ledled y DU wrth wraidd arlwy gwreiddiol BBC Three, a bydd yn parhau i fod yn y dyfodol. Bydd y cynnwys yn ymdrin ag amrywiaeth o sefyllfaoedd rhanbarthol, gan weithio mewn partneriaeth â chwmnïau annibynnol a thimau comisiynu Gwledydd a Rhanbarthau'r BBC i ddarganfod talent a syniadau newydd.



*Angels of the North; My Left Nut*

Bydd sianel deledu BBC Three yn galluogi amrywiaeth ehangach o bobl ifanc i gael gafael ar gynnwys perthnasol sy'n gallu eu helpu i ddathlu a chanfod pwy ydyn nhw.

Bydd sianel deledu'n rhoi mwy o sylw i'r nifer aruthrol o gynlluniau mynediad BBC Three sydd ar waith ledled y DU ar hyn o bryd – gan gynnwys partneriaethau

parhaus gyda Chymru Greadigol, Northern Ireland Screen a Screen Scotland. Bydd hefyd yn cynyddu'r potensial i greu mwy o gyfleoedd masnachol ar gyfer y sector annibynnol ledled y DU, yn enwedig cwmnïau llai a rhanbarthol y mae BBC Three yn eu comisiynu a'u datblygu (rhai heb brofiad blaenorol o ddarlledu).

Bydd hefyd yn creu llwyfan mwy er mwyn lansio a dathlu talent ifanc fyd-eang a thalent Brydeinig a all ddylanwadu ar gynulleidfaoedd ifanc y DU mewn ffordd ystyrlon.

Mae gan y brand hanes o dorri a chefnogi talent Brydeinig newydd, gan gynnwys Stacey Dooley, y newyddiadurwr Mobeen Azhar sydd wedi ennill gwobr RTS, newyddiadurwr Tiffany Sweeney sydd wedi ennill gwobr '*Edinburgh Debut Presenter Award for Current Affairs*', y breninesau drag o *Ru Paul's Drag Race UK*, Daisy May a Charlie Cooper o *This Country*, Paul Mescal a Daisy-Edgar, sydd wedi'i henwebu ar gyfer 'Golden Globe', o *Normal People* a'r sioe *Famalam* sydd wedi ennill y wobr 'BAFTA Breakthrough'.





*Yung Filly yn Hot Property; The Vivienne, enillydd RuPaul's Drag Race UK; Guz Kahn yn Man Like Mobeen*

O ran triniaeth a thonyddiaeth, bydd sianel BBC Three yn croesawu iaith weledol gyfoes sy'n gymdeithasol a chyfranogol ei natur. Bydd ei chynnwys yn cyd-fynd â'r pynciau mwyaf perthnasol ar draws y wlad, yn amrywio o hunaniaeth, materion entrepreneuraidd ac iechyd, cerddoriaeth, chwaraeon a'r diwylliant pop.




*Maya Jama yn Glow Up; Defending Digga D*

### 3.1.3 Uchafbwyntiau'r cynnwys

Bydd y cynnwys a fydd yn cael ei gynnig yn adlewyrchu pynciau sydd o werth i bobl ifanc rhwng 16 a 34 oed, gyda chynnwys addas a diddorol cyn y trothwy ar gyfer cynulleidfa rhwng 13 a 15 oed.

Ein huchelgais yw y bydd holl raglenni BBC Three (y rhai sydd eisoes wedi'u comisiynu, y rhai sydd ar y gweill a rhai a fydd yn cael eu comisiynu yn y dyfodol) yn gallu cael eu cynnwys ar y sianel ddarlledu newydd.[12] Rydym yn gobeithio y bydd y sianel yn cynnwys y canlynol, ymysg rhaglenni eraill:

- **Cystadlaethau a fformatau i ymlacio –** *RuPaul's Drag Race UK*, *Glow Up*, *The Rap Game UK*.
- **Dramâu Prydeinig sy'n siapio hunaniaeth –** *Conversations with Friends* (gan Sally Rooney),[13] *Superhoe* (gan Nicôle Lecky).[14]
- **Gwedd newydd ac ifanc ar Newyddion a Materion Cyfoes –** *Is this coercive control?, Music's Dirty Secrets: Women Fight Back.*
- **Sioeau rhanbarthol uchelgeisiol ac anymddiheurol –** *Angels of the North*, *Nail Bar Boys* (w/t), *Bricking it* (w/t).[15]
- **Portreadau person cyntaf heb eu hidlo –** *Leigh-Anne Pinnock on colourism* (w/t).[16]
- **Talent Comedi newydd a chyffrous –** *Live Comedy in partnership with the Comedy Association*, *Starstruck*.[17]
- **Partneriaethau pwrpasol gyda BBC Sports, BBC Sounds a BBC News**
- **Ailddarllediadau ifanc ac eiconig o bob rhan o'r BBC –** *Jesy Nelson: Odd One Out*, *Normal People*, *This Country*, *My Left Nut.*
- **Rhaglenni sy'n cael eu prynu a ffilmiau ar gyfer pobl ifanc –** *Good Trouble*, *Awkwafina is Nora From Queens*, *Fort Salem*.

Bydd BBC Three yn parhau â dull comisiynu ar yr iPlayer yn gyntaf, gan ddefnyddio safbwyntiau llinol a digidol y gynulleidfa.

### 3.1.4 Oriau darlledu ac amserlen ddangosol

Bydd sianel BBC Three yn darlledu rhwng 7pm a 4am bob dydd. Rydym yn credu mai oriau brig y sianel fydd rhwng 7pm a hanner nos. Mae hyn yr un fath ag oriau'r sianel pan gafodd ei chau yn 2016.

---

[12] Rydym yn ymwybodol y gallai fod angen cytuno ar yr uchelgeisiau hyn gyda chynhyrchwyr, Pact a deiliaid hawliau eraill a byddwn yn dechrau'r trafodaethau hynny cyn bo hir.
[13] *BBC announces adaptation of Sally Rooney's Conversations With Friends*, Chwefror 2020
[14] *BBC drama is the primary incubator for storytelling talent in the UK*, Chwefror 2020
[15] *BBC Three and BBC England announce new collaborative commissions*, Hydref 2020
[16] *Little Mix star, Leigh-Anne Pinnock, set to explore racism and colourism for BBC Three*, Awst 2020
[17] *New sitcom Starstruck confirmed for BBC Three*, Awst 2019

Ni fydd sianel deledu BBC Three yn cynnig amserlen ddyddiol linol glasurol. Bydd yn gasgliad o dalentau a sioeau mwyaf perthnasol y mis hwnnw.

- **Yn ystod yr wythnos (rhwng 7pm a 4am)**
    - 7-8pm: Arddangos ffefrynnau eang sy'n addas ar gyfer cynulleidfa graidd BBC Three a gwylwyr iau.
    - 8-11pm: Lansio rhaglenni gwreiddiol ochr yn ochr ag ailddarllediadau.
    - 11pm-hanner nos: Comedi, gan gynnwys ôl-gatalog BBC Three.
    - Hanner nos-4am: Ailadrodd yr amserlen gynharach ynghyd â chynnwys allweddol arall o BBC iPlayer.
- **Penwythnosau (7pm – 4am)**
    - Lle ar gyfer blociau o raglenni fel nosweithiau ffilm, digwyddiadau chwaraeon a cherddoriaeth a chysylltiadau talent arloesol i greu profiadau cyfranogol.

### 3.1.5 Amrywiaeth o gynnwys: cynyrchiadau gwreiddiol, rhaglenni wedi'u prynu / rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf a chymysgedd o genres


Bydd union fanylion am amrywiaeth cynnwys sianel deledu BBC Three yn dibynnu ar nifer o faterion gan gynnwys cyllideb, argaeledd cynnwys a hawliau. Fodd bynnag, er mwyn bod yn dryloyw, isod rydym wedi nodi sut rydym yn credu bydd y cynnwys amrywiol yn cael ei ddarlledu ar sianel newydd BBC Three.

Yn ystod yr oriau brig (7pm i hanner nos) rydym yn cynnig y bydd 24% o'r oriau yn rhaglenni sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, gydag ailddarllediadau'n cyfrif am y 76% arall. Mae hyn yn debyg iawn i sianel flaenorol BBC Three, er enghraifft, yn 2014/15, roedd 26% yn rhaglenni a oedd yn cael eu dangos am y tro cyntaf ac roedd 73% yn ailddarllediadau.

Bydd cynyrchiadau gwreiddiol y BBC (hynny yw, rhaglenni sy'n cael eu comisiynu gan y BBC ond sy'n cynnwys rhaglenni sy'n cael eu darlledu am y tro cyntaf ac ailddarllediadau) yn cyfrif am 70% o'r oriau darlledu.

Mae'r siart isod yn rhoi amcangyfrif o'r math o raglenni a fydd yn cael ei ddarlledu ar sianel deledu BBC Three yn ystod oriau brig (7pm i hanner nos). Er hyn, gallai hyn amrywio'n sylweddol fesul blwyddyn, yn dibynnu ar ddigwyddiadau cerddoriaeth a chwaraeon.

**Siart 1: Cynnwys BBC Three yn ystod oriau brig (7pm-hanner nos)**




### 3.1.6 Y cyrhaeddiad a'r cyfran gwylio disgwyliedig

Nod sianel deledu BBC Three fydd gwella cyrhaeddiad a helpu i fod yn gynhwysol, nid gwella sgôr a'r amser cyfartalog sy'n cael ei dreulio ar y sianel. Bydd llwyddiant y sianel yn cael ei feirniadu ar ei gallu i sicrhau cyrhaeddiad unigryw ac i gael cynulleidfaoedd newydd i ddefnyddio iPlayer.

Byddwn yn cynnal rhagor o waith ymchwil a dadansoddiad i ddangos amcangyfrifon o gyrhaeddiad, oriau gwylio a chyfran gwylio. Bydd y dadansoddiad hwn yn cael ei gyhoeddi fel rhan o'n Prawf Budd y Cyhoedd i Ofcom yn ddiweddarach eleni.

### 3.1.7 Cynlluniau dosbarthu

Bydd sianel deledu BBC Three yn cael ei chynnwys yng nghapasiti dosbarthu darllediadau presennol y BBC. Bydd yn cael ei darlledu mewn manylder safonol (SD) ar deledu daearol (drwy Freeview/YouView) ledled y DU. Bydd hefyd yn cael ei darlledu mewn Manylder Uwch (HD) ar deledu daearol (ac eithrio yng Nghymru lle mae dyrannu capasiti HD yn amodol ar drafodaeth gyda S4C) ac yn yr Alban lle mae'r capasiti HD yn cael ei ddefnyddio gan sianel BBC Scotland), lloeren ddigidol (Sky, Freesat) a chebl (Virgin Media).

Fel sianel adloniant DGC sydd o ddiddordeb cyffredinol ac sydd ar gael yn genedlaethol, rydym yn credu y dylai Ofcom ddiwygio'r Cod EPG i fynnu amlygrwydd priodol ar gyfer sianel deledu BBC Three. Ar sail y cynsail a osodwyd gan benderfyniadau diweddar Ofcom ar amlygrwydd EPG, rydym yn credu y dylai BBC Three ymddangos yn yr 24 slot cyntaf yn adran adloniant cyffredinol EPGs.

Fodd bynnag, er mwyn lleihau'r effaith ar sianeli eraill, rydym yn cynnig y dylai'r sianel fod ar rif 24 neu ar y slot EPG isaf sy'n rhydd yn y 24 slot uchaf.

Os na fyddwn yn gallu sicrhau slot EPG amlwg er mwyn lansio'r sianel, bydd hyn yn amharu'n sylweddol ar werth cyhoeddus sianel ddarlledu BBC Three.

### 3.1.8 Cyllideb

Isod, rydym wedi nodi amcangyfrif o'n cyllideb ar gyfer sianel newydd BBC Three. Y gydran bwysicaf o gostau'r sianel newydd fydd cyllideb cynnwys BBC Three. Fodd bynnag, mae'r gyllideb o £72.5m – yn unol â'n hymrwymiad Cynllun blynyddol 2020/21 i ddyblu cyllideb BBC Three erbyn 2022/23 – yr un fath ag y byddai heb lansio'r sianel newydd. Ar ben hyn, amcangyfrifir y bydd costau gweithredu parhaus ychwanegol o redeg y sianel (marchnata, technoleg, dosbarthu, gweithrediadau) yn £2.0m, ac amcangyfrifir y bydd y lansiad yn costio £3.5m.

**Tabl 1: Amcangyfrif o'r gyllideb ar gyfer sianel newydd BBC Three**

| | Costau Lansio | Costau Blynyddol |
|---|---|---|
| **Costau Lansio** | | |
| Technoleg, gweithrediadau a chostau marchnata untro ar gyfer y lansiad | £3.5m | - |
| **Costau parhaus cynnwys BBC Three** | | |
| Cyllideb cynnwys BBC Three | - | £72.5m |
| Cyfanswm costau parhaus cynnwys BBC Three | - | £72.5m |
| **Costau parhaus gweithredu'r sianel** | | |
| Marchnata<br>*(£1.2m o gynnydd ar gyllideb farchnata bresennol BBC Three)* | - | £5.7m |
| Dosbarthu / technoleg / gweithrediadau | - | £0.8m |
| Cyfanswm costau gweithredu'r sianel | - | £6.5m |
| **Cyfanswm Costau** | **£3.5m** | **£79.0m** |

Byddwn yn dechrau trafodaethau gyda Pact a chyrff eraill sy'n rheoli hawliau cyn lansio'r sianel er mwyn cytuno ar fframwaith hawliau sy'n foddhaol i bawb.

## 3.2 Newidiadau i CBBC

Mae angen i'r BBC ddarparu sianel newydd BBC Three o fewn y capasiti dosbarthu presennol. Bydd lansio sianel ddarlledu BBC Three o 7pm ymlaen yn golygu y bydd CBBC yn gorffen am 7pm yn hytrach na 9pm. Mae hyn yn golygu y bydd CBBC yn gorffen ar yr un amser ag oedd yn gorffen nes i sianel BBC Three gau yn 2016.

Er y bydd hyn yn effeithio ar gynulleidfaoedd CBBC, dim ond cyfran fach iawn o gyfanswm gwylwyr y BBC sy'n gwylio CBBC ar ôl 7pm (llai na 2% ar gyfartaledd). Rydym yn credu bod hyn yn effaith gymharol fach y gellir ei rheoli a fydd yn galluogi lansio sianel newydd BBC Three.

Ar ben hynny, i liniaru'r effaith hon, bydd y BBC yn darparu cynnig cryfach nag erioed i blant – ar draws iPlayer, CBBC a sianeli eraill. Mae Gwasanaeth Plant y BBC yn adnewyddu ei strategaeth gynnwys ar Cbeebies a CBBC i gael mwy o effaith ar gynulleidfaoedd (gan gynnwys rhaglenni addysgol newydd). Byddwn hefyd yn cryfhau ein cynnwys 6-12 oed ar iPlayer, cynnwys i deuluoedd ar BBC One a byddwn yn darparu cynnwys ar sianel newydd BBC Three rhwng 7pm a 9pm a fydd yn apelio at bobl ifanc ac yn helpu i'w trosglwyddo i'r sianel.

# 4. Darparu gwerth cyhoeddus

## 4.1 Cyflawni yn erbyn Cenhadaeth y BBC

Cenhadaeth y BBC yw "gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu cynnyrch a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu".[18] Wrth wneud hynny, rhaid i'r BBC sicrhau gwerth gwych am arian yn gyfnewid am ffi'r drwydded.

Mae'r cynigion hyn yn ceisio gwneud hynny drwy lansio sianel deledu BBC Three newydd, ail-flaenoriaethu buddsoddiadau mewn rhaglenni 'i mi' arloesol o safon sydd wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd iau ar BBC Three ac iPlayer.

## 4.2 Ail Ddiben Cyhoeddus y BBC – Dysgu ar gyfer pobl o bob oed

Ail ddiben cyhoeddus y BBC yw:

> **Cefnogi dysgu ar gyfer pobl o bob oed:** dylai'r BBC helpu pawb i ddysgu am wahanol bynciau mewn ffyrdd hygyrch a difyr sy'n eu hysbrydoli ac yn eu herio. Dylai'r BBC ddarparu cynnwys addysgol arbenigol er mwyn helpu i gefnogi dysgu plant a phobl ifanc ledled y Deyrnas Unedig. Dylai annog mwy o bobl i archwilio pynciau newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd drwy feithrin partneriaethau gyda sefydliadau ym meysydd addysg, chwaraeon a diwylliant.".[19]

Er mai sianel adloniant fydd hon yn bennaf gyda sylfeini cryf ar gyfer adloniant ffeithiol, dramâu a chomedi, bydd sianel deledu BBC Three hefyd yn darlledu rhaglenni ffeithiol, materion cyfoes, cerddoriaeth a chwaraeon sydd wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd iau. Bydd hyn yn gyfraniad pwysig i allbwn dysgu anffurfiol y BBC.

Bydd ehangu ein harlwy addysgol ar CBBC ac iPlayer yn gwneud iawn am leihau oriau gwylio CBBC.

## 4.3 Trydydd Diben Cyhoeddus y BBC – creadigol, unigryw ac o ansawdd uchel

Trydydd diben cyhoeddus y BBC yw:

> **Dangos allbwn a gwasanaethau creadigol ac unigryw o'r ansawdd gorau:** dylai'r BBC ddarparu allbwn o safon uchel mewn nifer o wahanol genres ar draws amrywiaeth o wasanaethau a llwyfannau, sy'n gosod y safon yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. Dylai ei wasanaethau fod yn wahanol i'r rheini sy'n cael eu darparu mewn mannau eraill, a dylai gymryd risgiau

---

[18] Siarter Frenhinol y BBC, Erthygl 5
[19] Siarter Frenhinol y BBC, Erthygl 6(2)

creadigol, hyd yn oed os nad ydy pob un yn llwyddiannus, er mwyn datblygu dulliau gweithredu newydd a chynnwys arloesol."[20]

Bydd sianel deledu BBC Three yn sianel greadigol ac aml-genre o safon uchel a fydd yn cynnig dewis ehangach i gynulleidfaoedd.

Bydd y sianel yn wahanol i'r sianeli a'r gwasanaethau eraill yn y farchnad, gan ein galluogi i adrodd amrywiaeth o straeon unigryw, ifanc a Phrydeinig o bob cwr o'r DU.

## 4.4 Pedwerydd Diben Cyhoeddus y BBC – Cymunedau amrywiol ac economi creadigol y DU i gyd.

Pedwerydd diben cyhoeddus y BBC yw:

> "**Adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu cymunedau amrywiol holl wledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig ac, wrth wneud hynny, cefnogi'r economi greadigol ar draws y Deyrnas Unedig**: dylai'r BBC adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig yn ei allbwn a'i wasanaethau. Wrth wneud hyn, dylai'r BBC gynrychioli a phortreadu bywydau'r bobl sy'n byw yn y Deyrnas Unedig heddiw mewn modd dilys a chywir, a chodi ymwybyddiaeth o'r diwylliannau a'r safbwyntiau gwahanol sy'n creu ei chymdeithas. Dylai sicrhau ei fod yn darparu allbwn a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion gwledydd, rhanbarthau a chymunedau'r Deyrnas Unedig. Dylai'r BBC ddod â phobl at ei gilydd i rannu profiadau a helpu i gyfrannu at lesiant a chydlyniant cymdeithasol y Deyrnas Unedig. Wrth gomisiynu a darparu'r allbwn, dylai'r BBC fuddsoddi yn economïau creadigol pob un o'r gwledydd a chyfrannu at eu datblygiad."[21]

Bydd cynigion y BBC yn gwasanaethu cynulleidfaoedd amrywiol nad ydynt yn cael eu gwasanaethu ddigon yn well. Mae BBC Three eisoes yn adlewyrchu ac yn portreadu lleisiau a phrofiadau go iawn ledled y DU. Fodd bynnag, bydd mwy o fuddsoddiad yn BBC Three a lansio sianel deledu yn helpu i ail-gydbwyso'r adnoddau presennol er mwyn adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu pawb, drwy wneud mwy ar gyfer cynulleidfaoedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu ddigon, fel cynulleidfaoedd iau C2DE ledled y DU.

Bydd sianel deledu newydd BBC Three yn cefnogi buddsoddiad sylweddol y BBC yn yr economi greadigol ledled y DU. Bydd o leiaf ddwy ran o dair o wariant estynedig rhaglenni BBC Three yn cael ei wario y tu allan i Lundain a bydd BBC Three yn adeiladu ar ei bartneriaeth parhaus gyda Chymru Greadigol, Northern Ireland Screen a Screen Scotland. Rydym hefyd yn bwriadu lansio cronfa newydd ar draws Canolbarth a Gogledd Lloegr, gan weithio gydag asiantaethau sgriniau rhanbarthol.

---

[20] Siarter Frenhinol y BBC, Erthygl 6(3)
[21] Siarter Frenhinol y BBC, Erthygl 6(4)

# 5. Manylion pellach am yr ymgynghoriad

## 5.1 Proses Prawf Lles y Cyhoedd

Mae Prawf Lles y Cyhoedd yn elfen allweddol o system lywodraethu'r BBC, a ddaeth i rym yn y Siarter a'r Cytundeb cyfredol o fis Ebrill 2017.[22]

Mae'r Cytundeb yn rhoi'r cyfrifoldeb, yn y lle cyntaf i Fwrdd y BBC, ar gyfer ystyried effaith rhai newidiadau arfaethedig i wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU[23]. Rhaid i'r BBC ystyried a yw unrhyw rai o'r newidiadau arfaethedig yn rhai o bwys.

Ni chaiff y BBC wneud newidiadau o bwys i'w wasanaethau cyhoeddus yn y DU[24] oni bai:

1) ei fod wedi cynnal Prawf Budd y Cyhoedd;

2) bod y prawf yn cael ei fodloni; a

3) bod Ofcom wedi penderfynu y gellir bwrw ymlaen â'r cynnig.[25]

Ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus y DU, mae'r Cytundeb yn diffinio'r newid o bwys fel lansio gwasanaeth cyhoeddus newydd, neu unrhyw newid i Wasanaethau Cyhoeddus y DU a allai gael effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth deg ac effeithlon.[26]

Rydym wedi nodi'r broses isod.

### 5.1.1 Rhan y BBC yn y broses

Mae'r broses o lansio BBC Three fel sianel deledu yn cynnwys lansio Gwasanaethau Cyhoeddus newydd yn y DU, ac felly, mae angen cynnal Prawf Budd y Cyhoedd yn awtomatig. Mae rhai o'r cynigion eraill yn newidiadau mawr i wasanaethau presennol (er enghraifft, lleihau oriau gweithredu CBBC). Gan fod y rhain yn rhan o'r un strategaeth i lansio sianel deledu BBC Three ac yn sicrhau'r gwerth gorau am ffi'r drwydded, rydym yn credu y dylem gynnal Prawf Budd y Cyhoedd sy'n cynnwys yr holl newidiadau sy'n cael eu trafod yn fanwl yn Adran 3 y ddogfen hon.

Ymgynghori ac Ymgysylltu â rhanddeiliaid

[22] Siarter Frenhinol y BBC (Erthygl 12, 20, 37, 46 a 63) a'r Cytundeb Fframwaith (Cymal 7 i 11 mewn perthynas â Gwasanaethau Cyhoeddus y Du a 16 i 20 mewn perthynas â gweithgareddau nad ydynt yn wasanaethau)
[23] Siarter Frenhinol y BBC, Erthygl 20(4)
[24] Mae'r BBC yn cadw ac yn cyhoeddi rhestr o Wasanaethau Cyhoeddus y DU yn unol ag Atodlen 1, Rhan 1 o'r Cytundeb Fframwaith.
[25] Cytundeb Fframwaith y BBC, Cymal 7(6)
[26] Cytundeb Fframwaith y BBC, Cymal 7(7)

Fel rhan o'r broses, mae'r BBC wedi ymrwymo yn ei Bolisi ar Newidiadau o Bwys i geisio adborth gan bartïon â diddordeb wrth iddo gynnal Prawf Lles y Cyhoedd. [27] Fel y mae Ofcom yn nodi yn ei Fframwaith Gweithredu, mae o fudd i drydydd partïon sicrhau eu bod yn codi pryderon gyda'r BBC pan ydym yn cynnal ein Prawf Lles y Cyhoedd a thynnu sylw at broblemau posibl sy'n codi o'r cynigion ar y cam hwn. [28] Bydd hyn yn caniatáu i'r BBC ystyried problemau posibl wrth ddatblygu'r cynigion terfynol.

Mae'r BBC yn croesawu'r cyfle i drafod ein cynigion ymhellach gyda rhanddeiliaid Yn benodol, bydd y BBC yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill, darlledwyr masnachol, y sector cynhyrchu, llwyfannau dosbarthu a grwpiau cynulleidfa, yn ogystal â'r economi greadigol ehangach.

Ymchwil a dadansoddi

Bydd y BBC yn cynnal ymchwil a dadansoddiad i lywio ei Brawf Budd y Cyhoedd, gan gynnwys model cyrhaeddiad cynulleidfa manwl er mwyn nodi sut bydd y gwasanaeth yn debygol o gael ei ddefnyddio dros amser. Yn benodol, bydd y model yn asesu i ba raddau y bydd cynigion y BBC yn arwain at effaith negyddol ar gystadleuaeth lorweddol.

Er mwyn asesu graddfa a thebygolrwydd unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol, byddwn yn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, data'r diwydiant (pan fydd ar gael), ymchwil cynulleidfa a dadansoddiad economaidd. Bydd y Prawf Budd y Cyhoedd hefyd yn nodi sut mae'r BBC wedi dylunio'r estyniadau brand arfaethedig i leihau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

Penderfyniad gan Fwrdd y BBC

I gwrdd â'r meini prawf a nodir yn y Prawf Lles y Cyhoedd, rhaid i Fwrdd y BBC fod yn fodlon bod y cynllun newydd yn cefnogi cenhadaeth y BBC; ei fod yn hyrwyddo'i ddibenion cyhoeddus; fod y BBC wedi cymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw'r newid yn cael unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithlon; a bod gwerth cyhoeddus y cynllun yn cyfiawnhau unrhyw effaith ar gystadleuaeth. Pan fo Bwrdd y BBC yn pennu bod yr elfennau uchod o'r Prawf Lles y Cyhoedd wedi'u bodloni, bydd y BBC yn cyhoeddi fersiwn heb fod yn gyfrinachol o'r newid arfaethedig ac yn ei gyfeirio at Ofcom. Mae'r BBC yn bwriadu gwneud hynny yn ystod Haf 2021.

[27] *Policy on material changes to the BBC's public service activities and commercial activities*
[28] *Assessing the impact of proposed changes to the BBC's public service activities: Ofcom's procedures and guidance*, paragraff 4.17

### 5.1.2 Rhan Ofcom yn y broses

Fel rheoleiddiwr y BBC, Ofcom fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a gaiff newid o bwys fynd rhagddo ai peidio. Wrth ddod i benderfyniad, bydd Ofcom yn asesu a yw'r newid arfaethedig yn un o bwys ac yn cynnal Asesiad Cystadleuaeth, neu asesiad byrrach, yn cynnwys y camau canlynol:

- Cynnal ymchwil ac adolygu barn rhanddeiliaid;
- Adolygu'r gweithdrefnau mae'r BBC wedi'u dilyn wrth gynnal Prawf Budd y Cyhoedd, gan gynnwys a yw'r BBC wedi ymgynghori'n briodol â rhanddeiliaid allanol.
- Adolygu asesiad y BBC o werth cyhoeddus y newid;
- Asesu effaith niweidiol y newid arfaethedig ar gystadleuaeth; ac
- Asesu a yw gwerth cyhoeddus y newid yn cyfiawnhau unrhyw effaith negyddol ar gystadleuaeth.

Gall Ofcom ddod i bedwar math o benderfyniad:

- anfon y cynnig neu elfennau o'r cynnig yn ôl i'r BBC i'w hailystyried;
- caniatáu i'r newid fynd rhagddo;
- gofyn iddynt wneud addasiadau neu osod amodau cyn bwrw ymlaen â'r newid; neu
- benderfynu na chaiff y BBC fwrw ymlaen â'r newid arfaethedig.

Fel rheol, mae Ofcom yn ymgynghori ddwywaith yn ystod y broses: yn gyntaf ar y cam sy'n asesu pa mor berthnasol yw'r cynnig ac yna ar ei benderfyniad dros dro.

## 5.2 Cwestiynau ymgynghoriad y BBC

Bydd yr ymgynghoriad ar agor rhwng 5 Mawrth 2021 ac 16 Ebrill 2021.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi gwybodaeth am ein cynlluniau yn y dyfodol i lansio sianel deledu BBC Three. Ein bwriad yw rhoi digon o wybodaeth i randdeiliaid i'w galluogi i ymgysylltu'n ystyrlon â ni wrth i ni roi trefn derfynol ar ein cynigion, ac yn y pen draw byddwn yn eu cynnwys mewn Prawf Lles y Cyhoedd. Er bod meysydd o ansicrwydd yn parhau ar y cam hwn yn ein proses, rydym o'r farn ein bod wedi darparu cymaint o wybodaeth ag y gallwn ynghylch ein cynlluniau heb gyhoeddi unrhyw wybodaeth a allai fod yn fasnachol sensitif.

Rydym yn ceisio barn yr holl randdeiliaid, yn benodol rhanddeiliaid y diwydiant, ar ein bwriad i lansio sianel deledu BBC Three, yn benodol o ran y cwestiynau canlynol:

**Cwestiwn 1:** Beth yw eich barn chi am werth cyhoeddus posibl ein cynigion ar gyfer sianel deledu BBC Three, gan gynnwys i ba raddau y mae ein cynigion yn cyfrannu at genhadaeth y BBC i wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu cynnyrch unigryw o ansawdd uchel a gwasanaethau sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu?

**Cwestiwn 2:** Beth yw eich barn am y budd i gynulleidfaoedd a fydd yn gwylio'r sianel, yn ogystal â'r effeithiau cymdeithasol a diwylliannol ehangach posibl?

**Cwestiwn 3:** Yn eich barn chi, pa effaith (gadarnhaol neu negyddol) allai ein cynigion o ran sianel deledu BBC Three eu cael ar gystadleuaeth deg ac effeithlon?

**Cwestiwn 4:** A oes unrhyw gamau y gallem eu cymryd yn eich barn chi i leihau i'r eithaf unrhyw effeithiau negyddol posibl ar gystadleuaeth deg ac effeithlon neu i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol posibl?

### 5.3 Sut mae ymateb

Byddem yn ddiolchgar pe gallai ymatebwyr, lle bynnag y bo'n ymarferol bosibl, yn ymateb i bob cwestiwn yn uniongyrchol.

Os hoffech ymateb i'r ymgynghoriad hwn, e-bostiwch eich ymateb at publicinterest.test@bbc.co.uk neu ysgrifennwch at Prawf Budd y Cyhoedd BBC Three, BBC Broadcasting House, Portland Place, Llundain, W1A 1AA.

Cysylltwch â publicinterest.test@bbc.co.uk os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses hon, am ein hymgynghoriad, neu os ydych eisiau trafod y cynigion hyn ymhellach.

Nodwch yn eich ymateb a ddylai rhywfaint neu'r cyfan o'ch ymateb gael ei drin yn gyfrinachol. Byddwn yn defnyddio'r ymatebion i oleuo ein gwaith ar y Prawf Lles y Cyhoedd yn y dyfodol. Efallai y byddwn yn cyfeirio at ymatebion, un ai yn gyffredinol neu gyfeiriadau penodol, fel rhan o'r Prawf Lles y Cyhoedd y byddwn yn ei gyhoeddi. O ran ymatebion cyfrinachol, efallai y byddwn yn holi ynghylch sut i gynnwys y rhain mewn Prawf Lles y Cyhoedd lle bo'n briodol, yn ogystal ag a gawn ni ddarparu'r rhain i Ofcom ar sail gyfrinachol ai peidio, i helpu Ofcom gyda'i asesiad perthnasedd.

Ni allwn ystyried sylwadau sy'n ymwneud â materion ehangach fel ffi'r drwydded neu sylwadau sy'n ymwneud â rhaglenni a chynnwys BBC.